



Tribiwnlys Addysg Cymru

Canllaw i ymatebwyr ar baratoi datganiad achos ar gyfer apêl

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am baratoi datganiadau achos mewn ymateb i apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys).

Ni allwn ymdrin â phopeth a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer pob apêl. Yn dibynnu ar natur yr apêl, efallai na fydd angen i chi anfon yr holl wybodaeth y sonnir amdani yn y llyfryn hwn. Cysylltwch â Thribiwnlys Addysg Cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apeliadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich apêl y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymhell a ddylech gymryd camau penodol.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer awdurdod lleol sy'n paratoi datganiadau achos mewn ymateb i apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys).

Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Gallwch apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach os ydych yn anghytuno â nhw. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr apêl yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartion eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adnoddau Gwybodaeth

- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

Cynnwys

1 Cyflwyniad a gwybodaeth bwysig	
- Beth yw datganiad achos?	3
- Terfynau amser	3
- Sut i gyflwyno'ch datganiad achos	3
- Y bwndel terfynol o bapurau	4
- Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr	4
- Diystyru apêl	5
- Dod i gytundeb	5
2 Beth i'w gynnwys yn y datganiad achos	
- Pa wybodaeth sy'n hanfodol?	6
- Pa wybodaeth arall y dylid ei chynnwys?	6
3 Paratoi bwndel	
- Cyfrifoldebau	10
- Paratoi bwndel	10
- Cyflwyno'r bwndel	11

1. Cyflwyniad a gwybodaeth bwysig

Beth yw datganiad achos?

Mae apelydd yn apelio i'r Tribiwnlys pan fydd yn anghytuno â phenderfyniadau awdurdod lleol ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc. Bydd yn egluro ei resymau, ac yn darparu tystiolaeth, mewn datganiad achos. Mae datganiad achos yr awdurdod lleol yn ymateb i ddatganiad achos yr apelydd. Dyma'ch cyfle chi i esbonio penderfyniadau y mae'r apelydd yn anghytuno â nhw, a darparu tystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

Gallwch ddarparu dogfennau, adroddiadau, llythyrau, barn pobl, ac unrhyw beth arall sy'n cefnogi'ch achos yn eich tyb chi.

Terfynau amser

Unwaith y bydd yr apelydd wedi cyflwyno ei ddatganiad achos, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael copi. Bydd gennych 4 wythnos o dderbyn ei ddatganiad achos i gyflwyno eich datganiad chi. Bydd y Tribiwnlys yn darparu hysbysiad yn cadarnhau'r dyddiad cau.

Os na fyddwch yn darparu eich datganiad achos mewn pryd, gall panel y Tribiwnlys eich atal rhag cymryd rhan yn y gwrandawriad yn gyfan gwbl.

Sut i gyflwyno'ch datganiad achos

Gallwch gyflwyno eich datganiad achos drwy e-bost neu drwy'r post.

Os ydych yn cyflwyno drwy e-bost, rhaid i chi:

- gynnwys rhestr gynnwys ar ffurf Word, gan nodi enw'r ddogfen, ei dyddiad a'i hawdur;
- cyflwyno'r holl ddogfennau eraill ar ffurf PDF; a
- darparu cyfrineiriau ar gyfer unrhyw ddogfennau sydd wedi'u cloi.

Os ydych yn cyflwyno drwy'r post, rhaid i chi:

- anfon copïau yn hytrach na dogfennau gwreiddiol;
- cynnwys rhestr gynnwys, gan nodi enw'r ddogfen, ei dyddiad a'i hawdur;
- peidio â staplo dogfennau; a
- pheidio ag ychwanegu rhifau tudalennau eich hun.

Y bwndel terfynol o bapurau

Os nad yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, rhaid i chi ddarparu'r bwndel terfynol o bapurau hefyd. Rhaid i chi holi'r apelydd a yw'n cytuno â'r bwndel cyn ei gyflwyno i ni. Bydd Rhan 3 o'r llyfryn hwn yn esbonio bwndeli achos yn fanylach.

Os yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, bydd ei gynrychiolydd yn anfon ei ddatganiad achos atom. Byddwn wedyn yn cyfuno eich datganiad achos gydag un yr apelydd, ac yn cynhyrchu'r bwndel terfynol. Byddwn yn anfon y bwndel atoch chi a'r apelydd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

Rhaid i chi helpu'r ymatebydd i baratoi'r bwndel drwy ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau sydd eu hangen arno. Os nad ydych yn rhannu dogfennau sydd gennych, efallai y bydd y panel yn penderfynu eich bod yn ceisio celu tystiolaeth nad yw o gymorth i'ch achos. Rhaid i'r apelydd hefyd roi unrhyw ddogfennau sydd ganddo i chi, am yr un rheswm.

Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr

Gallwch ofyn i banel y Tribiwnlys yn y gwrandawriad a fydd yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig hwyr. Bydd panel y Tribiwnlys yn ystyried eich cais:

- os yw'r apelydd yn cytuno i gynnwys y dystiolaeth; neu
- os gallwch ddangos nad oedd y dystiolaeth ar gael, ac na allai fod wedi bod ar gael yn rhesymol, cyn y dyddiad cau. Dylech anfon y dystiolaeth hon at y Tribiwnlys a'r awdurdod lleol fel ei bod yn cyrraedd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Bydd y panel yn dal i ystyried barn yr apelydd.

Rhaid i'r dystiolaeth hon hefyd fod yn annhebygol o atal y gwrandawriad rhag cael ei reoli'n effeithlon. Gallai cyflwyno dogfennau hir neu gymhleth yn y gwrandawriad achosi anawsterau neu oedi.

Gall y panel tribiwnlys barhau i dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr nad yw'n bodloni'r amodau hyn, ond dim ond os gallwch ddangos bod risg ddifrifol o ragfarn os na dderbynnir y dystiolaeth.

Bydd panel y tribiwnlys yn gwrthod derbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw'n credu y byddai'n groes i fuddiannau cyfiawnder.

Dewch â 5 copi o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i wrandawriad mewn person os na dderbyniodd y tribiwnlys a'r apelydd y dystiolaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith cynt.

Diystyru apêl

Gall yr awdurdod lleol wneud cais i'r Tribiwnlys ddiystyru apêl, yn rhannol neu'n llawn. Os bydd y Tribiwnlys yn diystyru'r apêl yn llawn, bydd yn dod â'r achos i ben.

Bydd y Tribiwnlys yn diystyru apêl os:

- nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau'r Tribiwnlys; neu
- nad yw, neu nad yw bellach, o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys; neu
- nad yw'n datgelu unrhyw sail resymol; neu
- mae'n gamddefnydd o broses y Tribiwnlys.

Dylech wneud unrhyw gais i ddiystyru apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r sail, a'r rhesymau rydych yn dibynnu arnynt, yn llawn.

Dod i gytundeb

Mae trafodaethau rhwng yr apelydd a'r awdurdod lleol yn aml yn parhau ar ôl i ni gofrestru apêl. Os byddwch yn dod i unrhyw gytundebau gyda'r apelydd cyn y gwrandawriad, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys.

2. Beth i'w gynnwys yn y datganiad achos

Pa wybodaeth sy'n hanfodol?

Cyn dyddiad cau'r datganiad achos, mae rheoliadau'r Tribiwnlys yn nodi bod yn rhaid i chi gyflwyno:

- copi o'r penderfyniad dadleuol;
- copi o CDU y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennau sydd ynghlwm wrth y CDU neu'n rhan ohono ac, os yw ar gael, copi o'r adolygiad diweddaraf;
- datganiad achos; ac
- yr holl dystiolaeth arall yr hoffech ddibynnu arni nad yw'r apelydd eisoes wedi'i chyflwyno.

Rhaid i'r datganiad achos:

- gynnwys barn y plentyn neu'r person ifanc ar y materion dan sylw yn yr apêl, neu'r rhesymau pam nad yw'r farn hon wedi'i chynnwys
- cael ei lofnodi gan berson y mae'r awdurdod lleol wedi'i awdurdodi i lofnodi datganiadau achos ar ei ran; a
- datgan a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl.

Os yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl, rhaid i'w ddatganiad achos ddatgan:

- ar ba sail y gwrthwynebir yr apêl, neu unrhyw ran o'r apêl;
- enw a chyfeiriad ei gynrychiolydd ac, os yw ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd;
- y cyfeiriad lle dylai'r Tribiwnlys anfon dogfennau;
- crynodeb o'r ffeithiau sy'n ymwneud â'r penderfyniad dadleuol;
- y rheswm neu'r rhesymau dros y penderfyniad dadleuol, os nad yw wedi'i gynnwys yn y penderfyniad; ac
- y camau, os o gwbl, sydd wedi'u cymryd i ddatrys yr anghydfod.

Pa wybodaeth arall y dylid ei chynnwys?

Anabledau ac anawsterau dysgu

Mae anawsterau dysgu neu anabledau'r plentyn neu'r person ifanc yn bwysig iawn i'r achos. Bydd panel y tribiwnlys am weld yr holl adroddiadau arbenigol perthnasol diweddar sydd ar gael.

Hanes yr achos

Bydd penderfyniad y Tribiwnlys yn ymwneud ag addysg y plentyn neu'r person ifanc ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ond mae hanes cynharach yn berthnasol hefyd. Mae crynodeb o'r hanes diweddar yn helpu i roi'r mater yn ei gyd-destun.

Os ydych yn darparu hanes diweddar, byddwch yn ddetholus. Anaml y bydd angen i'r Tribiwnlys wybod am yr holl gyswllt rhwng yr awdurdod lleol a'r rhieni. Fodd bynnag, gall amseriad digwyddiadau sy'n effeithio ar y plentyn neu'r person ifanc fod yn bwysig. Dylech ystyried nodi dyddiadau asesiadau gan weithwyr proffesiynol, pan ddechreuodd neu newidiodd y plentyn neu'r person ifanc ysgolion, a pha mor hir y parodd mathau penodol o ddarpariaeth.

Mae cynnydd neu ddiffyg cynnydd y plentyn neu'r person ifanc yn fater pwysig hefyd. Yn aml, mae'n ddefnyddiol cael adroddiadau ar asesiadau, adroddiadau cynnydd, a chynlluniau addysg diweddar i ddangos hyn.

Y sefyllfa bresennol

Mae angen i'r Tribiwnlys lunio darlun cywir cyfredol o'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'r materion dan sylw yn dibynnu ar yr achos, ond dylai unrhyw wybodaeth fod yn gyfredol ac yn fanwl. Gall gwybodaeth gynnwys:

- cyflawniadau addysgol cyfredol a chanlyniadau arholiadau
- ymddygiad yn yr ysgol ac yn y cartref
- asesiadau diweddaraf gan weithwyr proffesiynol
- manylion y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gyfredol ac, os yw'n berthnasol, darpariaeth anaddysgol; neu
- drefniadau teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Gallwch ddweud pa drefniadau presennol sy'n llwyddiannus a pha rai sy'n llai effeithiol. Os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc, am ba reswm bynnag, yn derbyn yr holl ddarpariaeth sydd ei hangen arno, rhowch fanylion.

Y rhesymau cyfreithiol

Dylai datganiad achos yr awdurdod lleol nodi'n glir y rhesymau cyfreithiol clir y dibynnodd yr awdurdod lleol arnynt wrth wneud ei benderfyniad.

Er enghraifft, os yw plentyn neu berson ifanc yn mynychu ysgol a gynhelir, dylai gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol gyda phob plentyn arall, oni bai:

- nad yw'r gweithgaredd yn gydnaws â'i Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol;
- y byddai'n effeithio ar addysg pobl eraill; neu
- y byddai'n ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Rhaid i'r ALI benderfynu ar hyn.

Pe bai rhiant yn anghytuno â'ch penderfyniad i eithrio plentyn neu berson ifanc o weithgaredd, byddai angen i chi ddweud pa resymau y gwnaethoch ddibynnu arnynt wrth wneud eich penderfyniad, ac egluro pam yr oedd angen i chi wneud y penderfyniad hwnnw. Byddai angen i chi ddyfynnu pa adran o'r ddeddfwriaeth rydych yn cyfeirio ati hefyd. Mae'r enghraifft hon yn ymwneud ag adran 52 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Polisiau ALI

Bydd y Tribiwnlys yn ystyried polisi awdurdodau lleol os nad yw'n gwrthdaro â chanllawiau cenedlaethol. Dylech egluro pam i'r awdurdod lleol fabwysiadu'r polisi yn y dystiolaeth ysgrifenedig, neu esbonio yn y gwrandawriad. Ni fydd y Tribiwnlys o reidrwydd yn cymeradwyo penderfyniad a wneir yn unol â pholisi, ond mae'n wybodaeth bwysig i'w hystyried.

Ysgolion

Mae angen i'r Tribiwnlys gael tystiolaeth sylfaenol am unrhyw ysgol y gofynnwch iddo ei hystyried. Mae angen iddo wybod:

- pa fath o ysgol yw hi;
- faint o ddisgyblion sydd ar y gofrestr;
- faint o leoedd a ddarperir;
- faint o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- pa mor fawr yw'r dosbarthiadau neu grwpiau addysgu eraill; a
- pha gymwysterau a phrofiad perthnasol sydd gan y staff.

Dylech hefyd nodi unrhyw wybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae cwestiynau i'w hystyried yn cynnwys:

- Pa gymorth ydych chi'n ei awgrymu?
- Pa gymwysterau a phrofiad sydd gan y bobl sy'n darparu cymorth?
- Pa raglenni cwricwlwm ac addysgol y byddant yn eu darparu?
- Pa drefniadau y mae rhieni a'r ysgol yn cydweithredu arnynt?
- Pa bynciau neu weithgareddau ysgol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn eu cael yn anodd? Oes rhai eraill y mae'n dda am eu gwneud?
- Pa ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, neu gymorth, y mae'n eu cael?
- Pwy sydd wedi rhoi help (er enghraifft, athro, cynorthwydd neu therapydd) ac am ba hyd?
- Os yw'r ysgol wedi mynd â'r plentyn neu'r person ifanc allan o'r dosbarth ar gyfer addysgu grŵp bach neu unigol, pwy sy'n gwneud yr addysgu hwnnw?
- Ym mha bynciau y mae'n cael ei addysgu ar wahân, a beth yw nod yr addysgu?
- Ydy'r plentyn neu'r person ifanc yn defnyddio unrhyw offer arbennig?
- Oes ganddo unrhyw gynlluniau eraill? Os oes, rhwch gopïau i ni. Gall copïau o gynlluniau cynharach fod yn ddefnyddiol hefyd.

- Beth mae'r ysgol yn ei ddweud am gynnydd y plentyn? Gall copïau o adroddiadau, nodiadau cyfarfodydd adolygu blynyddol a chanlyniadau arholiadau ein helpu.
- Faint o ddisgyblion sydd yn nosbarth y plentyn neu'r person ifanc?
- Faint o oedolion sy'n gofalu am y dosbarth?
- Os yw lleoliad preswyl yn broblem, a yw rhesymau addysgol yn ei gyfiawnhau, a beth ydynt?

Trefniadau teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol

Er nad yw cludiant yn angen addysgol, efallai y bydd angen i ni wybod:

- pa gludiant rydych chi'n ei gynnig;
- faint o amser y bydd yn ei gymryd;
- ai tacsï neu drafnidiaeth gyhoeddus fydd y cludiant;
- a fydd hebryngwr; ac
- amcangyfrif o'r gost.

Addysg gartref

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael addysg gartref, neu unrhyw le heblaw'r ysgol, mae angen i ni wybod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd gennych mewn golwg. Esboniwch pam eich bod o'r farn ei bod yn briodol.

Therapi

Os ydych yn cynnig therapi, ai am resymau addysgol y mae hynny?

Beth yw natur y therapi?

Pwy fydd yn ei roi?

Beth yw cymwysterau'r person hwnnw?

Ble fydd therapi'n cael ei ddarparu a pha mor aml?

Monitro

Pwy fydd yn monitro cynnydd y plentyn neu'r person ifanc, a pha mor aml?

Cost

Gall cost y ddarpariaeth fod yn bwysig. Yn aml, rhaid i ni benderfynu a fyddai defnydd aneffeithlon o adnoddau neu wariant cyhoeddus afresymol. Pan mae hyn yn debygol o fod yn fater perthnasol, dylech ddarparu ffigurau manwl ac esboniadau llawn.

3. Paratoi bwndel

Cyfrifoldebau

Os yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, bydd ei gynrychiolydd yn anfon ei fwndel datganiad achos atom. Byddwn wedyn yn cyfuno eich datganiad achos gydag un yr apelydd, ac yn cynhyrchu'r bwndel terfynol. Byddwn yn anfon y bwndel atoch chi a'r apelydd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

Os nad yw'r apelydd yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, rhaid i chi baratoi'r bwndel terfynol ar ei ran.

Paratoi bwndel

Dylai bwndel fod yn un ffeil PDF o'r holl ddogfennau, ac un ffeil Word gyda mynegai, yn manylu cynnwys y bwndel PDF. Dylai'r mynegai nodi'r math o ddogfen, dyddiad, awdur (gan gynnwys swydd/proffesiwn), a rhif tudalen ar gyfer pob dogfen.

Os ydynt ar gael, rhaid i'r bwndel gynnwys:

- a) Y cais apêl, unrhyw resymau diwygiedig dros apelio a'r Datganiad cyfredol (os yw'n berthnasol)
- b) Datganiad Achos y ddau barti
- c) Llythyr penderfyniad yr awdurdod lleol
- d) Unrhyw geisiadau am newidiadau a wneir gan barti.
- e) Gorchymynion y Tribiwnlys ac unrhyw ddogfennau y mae'r Tribiwnlys wedi gorchymyn iddynt gael eu ffeilio
- f) Unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng y partion. Noder, ni ddylai hyn gynnwys gohebiaeth am ddyddiadau cyfarfodydd neu faterion nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r apêl
- g) Adroddiadau proffesiynol perthnasol sydd wedi'u paratoi dim mwy na thair blynedd o ddyddiad yr apêl
- h) Adroddiadau adolygu blynyddol sy'n berthnasol i'r materion sydd i'w penderfynu gan y Tribiwnlys am y ddwy flynedd ddiwethaf
- i) Unrhyw adroddiad asesu a chynnig o le (os yw'n berthnasol) gan y sefydliad addysgol arfaethedig a enwir yn y CDU. Os yw'n berthnasol, manylion cost y lleoliad, a chost cludiant i'r plentyn neu'r person ifanc i'r lleoliad.
- j) Dogfen waith derfynol a/neu restr gytûn o faterion heb eu datrys
- k) Datganiadau tystion i'w rhoi mewn tystiolaeth

Bydd angen i chi sicrhau bod yr holl ddogfennau'n gyflawn, yn ddarllenadwy, ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

Ar gyfer eitemau D i K, mae terfyn tudalen o 300 tudalen. Nid targed yw'r terfyn hwn ac ni fydd angen y nifer hwn o dudalennau ar lawer o achosion. Nid yw eitemau A i C wedi'u cynnwys yn y terfyn 300 tudalen. Mae hyn yn sicrhau bod partïon i'r gwrandawriad yn cael cyfle i gyflwyno eu hachos yn llawn. Os ydych am gynyddu'r terfyn tudalennau, bydd angen i chi wneud cais i'r Tribiwnlys. Dylai'ch cais gynnwys rhesymau clir ynghylch pam mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cael gwrandawriad teg ar gyfer y mater.

Cyflwyno'r bwndel

Cyn cyflwyno'r bwndel i'r Tribiwnlys, dylech anfon bwndel drafft at yr apelydd i'w ystyried. Os na fydd yn ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith, cewch dybio ei fod yn cytuno â'r bwndel.

Disgwylir y bwndel heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl eich cyfnod datganiad achos. Os nad yw'r bwndel yn dilyn y canllawiau hyn, bydd y Tribiwnlys yn rhoi 3 diwrnod i chi ddatrys unrhyw broblemau. Os byddwch yn methu â bodloni'r dyddiad cau, gall y Tribiwnlys eich atal rhag cymryd rhan yn yr achos.